



Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Diwygio trefniadau Llywodraethu a Chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Yr Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanethau Cyhoeddus

Dyddiad dechrau:

13 Tachwedd 2018

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

fire@llyw.cymru

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i foderneiddio trefniadau llywodraethu ac ariannu'r Awdurdodau Tân ac Achub - trefniadau sy'n bodoli ers 1995. Mae'r tri Awdurdod yng Nghymru wedi'u llunio ar sail cyfuniadau o'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, ond maent yn bodoli ar wahân iddynt. Caiff eu haelodau eu henwebu gan yr awdurdodau hynny, a daw bron y cyfan o'u cyllid o'r taliadau a godir ar yr un awdurdodau. Nid yw'r trefniadau hyn bellach yn addas yng nghyd-destun y newid yn yr amgylchiadau y mae'r Gwasanaeth yn gweithio oddi mewn iddynt, fel yr esbonnir isod.

Nodir yr achos dros newid yn fanwl yn y ddogfen ymgynghori. Yn gryno:

- Nid yw'r Awdurdodau yn eu cyfanrwydd yn atebol i unrhyw haen arall o lywodraeth nac i'r etholwyr, o ran eu cynlluniau na'r ffordd y cânt eu cyflenwi;
- Nid oes unrhyw reolaeth allanol na chraffu addas ar gyllidebau'r Awdurdodau;
- Ni fydd y trefniadau presennol yn cefnogi'r Awdurdodau yn ddigonol yn y dyfodol i gynllunio a chyllido eu gwasanaethau yn effeithiol, o ystyried y newid yn yr amgylchiadau y byddant yn cyflenwi eu gwasanaethau oddi mewn iddynt. Mae hyn yn cynnwys ehangu eu rôl i gynnwys cefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill, yr effaith y bydd y newid mewn demograffeg yn ei chael (ee y risg a'r heriau yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio ac yn byw'n annibynnol) a'r rhaglen barhaus o gynt.

Felly, mae'r ymgynghoriad yn edrych ar ystod o opsiynau i:

- Newid aelodaeth bresennol yr Awdurdodau fel bod yr aelodau'n atebol i'w hetholwyr a/neu i Lywodraeth Cymru.
- Gwella'r dull o graffu ar benderfyniadau'r Awdurdodau, gan gynnwys y ffordd y pennir eu cyllidebau.
- Cyflwyno mecanwaith cyllido newydd ar gyfer yr Awdurdodau, a allai gynnal y broses o ehangu eu rôl i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae nifer y tanau yng Nghymru wedi gostwng dros 50 y cant yn y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdodau gynnal lefelau priodol o ddiffoddwyr tân i sicrhau y gallant ymateb pan fydd argyfwng yn codi. Gan fod llai o danau i ymateb iddynt, rhaid i'r Awdurdodau felly edrych ar gyfleoedd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae gan ddiffoddwyr tân y sgiliau, y galluoedd a'r gwerthoedd i allu delio ag ystod eang o ddigwyddiadau eraill, megis llifogydd, argyfyngau meddygol ac ymosodiadau terfysgol. Ond, er mwyn gwneud y gorau o'r potensial hwnnw, rhaid i'r Gwasanaeth gael ei lywodraethu a'i ariannu mewn ffordd fodern, atebol a chynaliadwy.

Mae'r strwythur llywodraethu ac ariannu presennol yn cyfyngu ar allu'r Awdurdodau i integreiddio'n llawn â gwasanaethau cyhoeddus eraill a'u cefnogi mewn modd cynaliadwy. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig ystod o opsiynau ar gyfer newid y strwythur llywodraethu presennol a allai alluogi'r Awdurdodau i adeiladu'r cysylltiadau hynny. Gallai model ariannu newydd helpu hyn i ddigwydd a chynnal y gwaith hwn yn y tymor hwy.

Gallai integreiddio gwaith yr Awdurdodau â gwaith y gwasanaethau cymdeithasol neu'r GIG helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon uchel, hybu iechyd a llesiant da a helpu i greu cymunedau iachach a chadarnach fel y nodir yn *Ffyniant i bawb*.

Mae'r ymgynghoriad yn esbonio hefyd pam fod angen system rheoli perfformiad amgen ar gyfer yr Awdurdodau. Bydd y dull o wneud hynny, drwy sicrhau bod y system rheoli perfformiad wedi'i chysylltu'n gliriach â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, yn cael ei amlinellu yn y Bil Llywodraeth Leol.

Dylid darllen yr asesiad effaith ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori, sy'n nodi'r prif resymau pam fod angen newid ac yn archwilio nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni hyn, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi nad yw rhai opsiynau, a fu'n destun trafodaeth a dadl yn ystod y cyfnod ymgysylltu cynnar, yn bosibl. Nid oes cyfyngiad ar yr opsiynau ac mae'r ymgynghoriad yn gwahodd syniadau am opsiynau gwahanol ar gyfer diwygio, sy'n amlwg yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnig gostyngiad yn nifer aelodau'r Awdurdodau, a fyddai'n naturiol yn lleihau cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth ar eu cyfer. Rydym yn rhagweld hefyd - petai'r Awdurdodau yn cynnwys aelodau penodedig anweithredol - y byddai'r arbedion a wneid yn sgil y lleihad cyffredinol yn nifer yr aelodau yn ddigon i dalu am y gydnabyddiaeth ar gyfer yr aelodau anweithredol.

Byddai rhoi rhai o'r cynigion ar waith yn gofyn am is-ddeddfwriaeth, tra byddai newidiadau eraill mwy radical neu hirdymor yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cael eu paratoi ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.

Casgliad

1. Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Ar yr Awdurdodau Tân ac Achub y mae'r cynigion yn effeithio'n bennaf, er y gallai'r opsiynau i newid eu trefniadau llywodraethu effeithio ar strwythurau cabinet presennol awdurdodau lleol, fel yr archwilir yn y ddogfen ymgynghori.

Rydym wedi ymgysylltu â'r tri Phrif Swyddog Tân, Cadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddatblygu'r opsiynau arfaethedig. Gwnaethpwyd hyn drwy gynnal cyfarfodydd rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chadeiryddion yr Awdurdod a CLILC, a hefyd rhwng swyddogion a'r Prif Swyddogion Tân dros gyfnod o ddwy flynedd. Yn ogystal, comisiynwyd academyddion i gynnal trafodaethau annibynnol annibynnol â'r Prif Swyddogion Tân, Cadeiryddion yr Awdurdodau a CLILC. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi trafod yr achos dros ddiwygio gydag Undeb y Frigâd Dân.

Bydd yr ymgynghoriad ei hun yn cael ei rannu'n ehangach, gan gynnwys â'r 22 awdurdod lleol a'r Undebau Llafur perthnasol.

2. Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Mae'r cynigion polisi yn ymwneud â diwygio trefniadau llywodraethu a chyllido ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ac yn hynny o beth nid ydynt yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys plant, siaradwyr Cymraeg na phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd asesiad effaith lawn ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg ac ni chodwyd unrhyw faterion yn y rhain.

Nid yw'r cynigion polisi fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori yn cael unrhyw effaith ar nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na'r ffyrdd o weithio ar y cam hwn. Fodd bynnag, cawsant eu datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion manylach.

3. O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi.

4. Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Byddwn yn parhau i adolygu'r asesiad effaith integredig fel rhan o'r broses o ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r cynlluniau gweithredu manylach a fydd yn deillio o hynny.